





## Rydw i wedi anfon cwyn



Byddwn ni'n dweud wrthoch chi ein bod ni wedi cael eich cwyn.



Rydym ni'n gwirio:

- Ydych chi wedi rhoi tystiolaeth i ni bod y person wedi torri'r rheolau?
- Ydy eich cwyn am rywbeth difrifol?



**Gallwn ni wneud rhywbeth dim ond os mai'r ateb i'r ddau gwestiwn yw "ydw/ydy".**



Byddwn ni'n gwirio hyn mewn 4 wythnos.

Byddwn ni'n dweud wrthoch chi os gallwn ni wneud rhywbeth am eich cwyn.



## Beth sy'n digwydd os dydyn ni ddim yn gallu helpu?



Byddwn ni'n ysgrifennu i ddweud wrthoch chi os dydyn ni ddim yn meddwl eich bod chi wedi rhoi tystiolaeth i ni bod y person wedi torri'r rheolau. Byddwn ni'n dweud wrth y person yr ydych chi wedi cwyno amdany'n nhw.



Mae rhywun gyda'r cyngor neu'r awdurdod sy'n gwneud yn siŵr bod pobl yn dilyn y rheolau. Byddwn ni'n dweud wrth y person yna am eich cwyn.

## Beth sy'n digwydd os gallwn ni helpu?



Os mai'r ateb i'r ddau gwestiwn oedd "ydw/ ydy", byddwn ni'n ysgrifennu a dweud wrthoch chi y byddwn ni'n edrych ar y peth.

Efallai byddwn ni'n gofyn i chi am fwy o wybodaeth.

Byddwn ni'n dweud wrth y person yr ydych chi wedi cwyno amdany'n nhw. Mae rhywun gyda'r cyngor neu'r awdurdod sy'n gwneud yn siŵr bod pobl yn dilyn y rheolau. Byddwn ni'n dweud wrth y person yna am eich cwyn.

Efallai byddwn ni'n gofyn am gopïau o bapurau. Efallai byddwn ni'n siarad gyda phobl eraill.

Byddwn ni'n dweud wrthoch chi beth rydyn ni'n ei wneud

Efallai bydd yn cymryd hyd at 12 mis.



Mae'n rhaid i chi gadw'r manylion yn breifat.  
Mae hyn yn golygu bod neb yn cael siarad  
gyda phapurau newydd neu'r teledu am y  
gŵyn.



Pan fydd yr wybodaeth i gyd gyda ni,  
byddwn ni'n ysgrifennu:



- atoch chi



- at y person y gwnaethoch chi  
gwyno amdany'n nhw



- y person sy'n gwneud yn siŵr bod  
pobl yn dilyn y rheolau



Efallai byddwn ni'n penderfynu:



- Dydy'r person ddim wedi gwneud unrhyw beth yn anghywir.



- Torrodd y person y rheolau, ond dydy e ddim yn ddifrifol.



- Torrodd y person y rheolau ac rydyn ni'n mynd i ddweud wrth y Pwyllgor Safonau neu Banel Dyfarnu Cymru iddyn nhw benderfynu beth i'w wneud.



## Dydw i ddim yn hapus gyda beth ydych chi wedi ei wneud



Os ydych chi'n credu ein bod ni wedi gwneud y peth anghywir, mae'n rhaid i chi ysgrifennu aton ni o fewn 4 wythnos.



Gallwch chi ofyn i ni edrych ar y peth eto **os**:



- mae tystiolaeth newydd gyda chi



- gallwch chi ddangos ein bod ni ddim wedi meddwl am yr holl wybodaeth oedd gyda ni.



Byddwn ni'n penderfynu os byddwn ni'n edrych eto ar eich cwyn.

## Cysylltu â ni



Ffôn 0300 790 0203



E-bost [holwch@ombwdsmon.cymru](mailto:holwch@ombwdsmon.cymru)



Gwe [www.ombwdsmon.cymru](http://www.ombwdsmon.cymru)



Ysgrifennu  
Ombwdsmon Gwasanaethau  
Cyhoeddus Cymru  
1 Ffordd yr Hen Gae  
Pencoed  
CF35 5LJ